# Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin

# Blwyddyn Ddinesig 2021-22

## Cyflwyniad

<table>
<tr>
<td>Amlinelliad o’r Cyngor</td>
<td>Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gwasanaethu ardal Caerfyrddin a’i phoblogaeth o tua 14,600 o drigolion. Mae yna 18 o gynghorwyr, yn cynrychioli wardiau Gogledd, De a Gorllewin Caerfyrddin.<br><br>Y Cynghorwyr Tref yn ystod y cyfnod 2021/22 oedd:<br><br>Gareth John (Maer a chadeirydd)<br>Miriam Moules (Dirprwy Faer)<br>Wyn Thomas (Siryf)<br>Julia Ault (gadawodd yn Rhagfyr 2021)<br>Danny Bartley (gadawodd yn Rhagfyr 2021)<br>Parch. Tom Defis<br>Dr Baba Gana<br>Phil Grice<br>Peter Hughes Griffiths<br>Angharad Jones-Leefe<br>Alun Lenny<br>Arwel Lloyd<br>Ken Lloyd<br>Dr Ioan Matthews<br>Emlyn Schiavone<br>Jeff Thomas<br>Dr Matthew Thomas<br>Barry Williams<br><br>Caplan y Maer: Parch Beti Wyn James<br><br>Mae’r Cyngor Tref yn cyfarfod bob mis (ac eithrio mis Awst), ac fe’i cefnogir gan ddau brif Bwyllgor – y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a’r Pwyllgor Cyllid, sydd hefyd yn cyfarfod yn fisol ac yn adrodd ac yn gwneud argymhellion i’r Cyngor ar ddiwedd pob mis. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd, yn ôl yr angen.</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cyngor yn cyflogi 18 aelod o staff llawn amser neu ran amser, a Chlerc Cyngor y Dref yw Mr Alun Harries. Arweiniodd adolygiad o'r strwythur staffio at greu swydd newydd (i gymryd lle dwy rôl gweithiwr asiantaeth flaenorol) - Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid (Mrs Emma Smith).<br><br>Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn gyfrifol am nifer o wasanaethau yn y dref, gan gynnwys:<br>• Parc Caerfyrddin, gan gynnwys y siop de, y felodrom a'r cae rygbi;<br>• Parciau cyhoeddus eraill yng Nghaerfyrddin gan gynnwys Parc Tre Ioan, Parc Penllwyn, Parc Hinds, yr ardaloedd chwarae yn Nheras Russell, Maes y Wennol ac Allt Ioan;<br>• Mwyafrif o lwybrau troed y dref;<br>• Neuadd Ddinesig San Pedr;<br>• Mynwent Caerfyrddin;<br>• Goleuadau troedffyrdd ar draws y dref;<br>• Digwyddiadau a gweithgareddau yn cynnwys cynnau goleuadau Nadolig a pharêd y ceirw, Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin, Rasys y Maer ar Ŵyl y Banc mis Mai a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yng nghanol y dref;<br>• Gweithgareddau a digwyddiadau a gynhaliwyd ym Mharc Caerfyrddin trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys rhaglen eang o adloniant ar hyd yr haf a'r Ŵyl Aeaf;<br>• Cynllun basgedi crog y dref ac arddangosfeydd blodau eraill;<br>• Darparu grantiau ariannol a chymorth arall i sefydliadau lleol ac achosion da.<br><br>Ers 2018 mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi ei gydnabod gan Un Llais Cymru am ei safon uchel o wasanaeth a pherfformiad mewn nifer o feysydd, fel a ganlyn:<br><br>• Prosiect Treftadaeth Gorau (Ailddatblygu Felodrom Caerfyrddin) – **Enillydd**<br>• Menter Cynaladwyedd Orau (Cynllun Grantiau Fferm Solar Red Court) – **Enillydd**<br>• Prosiect Amgylcheddol Gorau (Cynllun Grantiau Fferm Solar Red Court) – **Enillydd**<br>• Menter Twristiaeth Orau (Gweithgareddau Taith Prydain) – **Enillydd**<br>• Menter Ymgysylltu a'r Gymuned Orau (defnyddio cyfryngau cymdeithasol) – **Canmoliaeth Uchel**<br>• Gwasanaeth Cyngor Lleol Orau (Siop De Caerfyrddin a Rhaglen Digwyddiadau'r Haf) – **Canmoliaeth**<br>• Adroddiad Blynyddol Gorau – **Canmoliaeth Uchel** |

| | |
|---|---|
| | Daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith ym mis Ionawr 2021, ac mae gan lawer o ddarpariaethau'r Ddeddf oblygiadau i gynghorau tref a chymuned ledled Cymru. Nid yw rhai o ofynion y Ddeddf yn dod i rym tan yn ddiweddarach yn ystod 2022, ond mae'r canlynol eisoes wedi'u cyflwyno gan CTC:<br><br>• Cyfarfodydd aml-leoliad – lle mae'n rhaid i gyfarfodydd y cyngor ddarparu ar gyfer cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno mynychu o bell, gan ddefnyddio cyfleusterau cynadledda fideo neu ffôn<br>• Adrodd ar benderfyniadau'r cyngor o fewn 7 diwrnod i gyfarfod<br>• Gofyniad i gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol – mae'r rhain wedi'u cyhoeddi gan CTC ers 2016<br>• Cynlluniau Hyfforddi - bydd y cynllun hyfforddi cyntaf yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosib ar ôl yr etholiadau lleol a fydd yn cymryd lle yn Mai 2022<br>• Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (PCC) - pŵer cyfreithiol newydd yw hwn sy'n galluogi cynghorau lleol i fod yn fwy arloesol gyda'i ddefnydd o gyllid a bydd adnoddau yn cael ei ystyried gan gynghorwyr yn fuan ar ôl etholiadau mis Mai. |
| **Beth yw Gweledigaeth/Amcanion y Cyngor?** | Mabwysiadodd Cyngor Tref Caerfyrddin y strategaeth pum mlynedd ganlynol yn 2017:<br>**<u>Strategaeth</u>**<br>'Gwella lles pobl Caerfyrddin a bod yn uchelgeisiol yn darparu gwasanaeth rhagorol a gwerth am arian'<br><br>**<u>Cynllun</u>**<br>1. I ddatblygu strategaeth a chynllun am y cyfnod 2017-2022;<br>2. I ymgysylltu'n eang â'r cymunedau amrywiol yng Nghaerfyrddin a nodi blaenoriaeth o'r ymgysylltu a'r ymgynghori cyhoeddus hwnnw;<br>3. I greu strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori i gefnogi 2 uchod; |

| | |
|---|---|
| | 4. Adnabod ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â chenedlaethau iau a chreu cyfleodd er mwyn i lais y bobl ifanc cael eu clywed a'u galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor;<br>5. Hyrwyddo a gwella lles Caerfyrddin a'i phobl ac ymateb fel bo angen i ofynion Cynllun Llesiant Sir Gâr;<br>6. Ystyried perthnasedd 'Cynllun Cymunedol' a 'Chynllun Lle' ar gyfer tref Caerfyrddin;<br>7. Bod mor effeithlon â phosibl wrth ddarparu'r gwasanaeth orau bosibl i bobl tref Caerfyrddin a'r rhai sy'n ymweld â'r ardal;<br>8. Gweithio'n agos gyda chynghorau tref a chymuned gyfagos eraill;<br>9. Parhau i weithio gyda chynghorau tref a chymuned gyfagos eraill.<br><br>Bydd y strategaeth uchod yn cael ei hadolygu gan CTC yn dilyn yr etholiadau lleol sydd yn cymryd lle yn Mai 2022. |

**CRYNODEB ARIANNOL 2021/22**

Dechreuodd gweithrediadau'r Cyngor wella o effeithiau'r pandemig Covid a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Er nad oedd yr incwm

Er nad oedd yr incwm yn ôl i'r arfer, roedd modd parhau i logi Neuadd San Pedr, y felodrom a'r cae meysydd rygbi a phêl-droed yn ystod y flwyddyn. Mae hyder wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ac erbyn diwedd y flwyddyn, roedd bwciadau yn cynyddu. Roedd y Cyngor yn ffodus i elwa o £4,983 gan Lywodraeth Cymru tuag at ddathliadau'r Nadolig yn y dref, a oedd yn cynnwys digwyddiad cynnau goleuadau'r Nadolig a phared y ceirw.

**Praesept y Cyngor** yw prif ffynhonnell incwm y Cyngor ac yn cynrychioli swm y dreth cyngor a delir gan aelwydydd yng Nghaerfyrddin sydd yn cael ei dyrannu i'r Cyngor Tref. Cododd y praesept blynyddol (£138.42 fesul aelwyd Band D) gyfanswm o £779,129 i'r Cyngor Tref yn ystod 2021/22 (nid yw'r Cyngor Tref yn derbyn unrhyw beth oddi wrth dreth busnesau). Derbyniodd hefyd incwm o ddarpariaeth o'i wasanaethau fel:

Mynwent Caerfyrddin: £65,012

Siop De Parc Caerfyrddin: £43,735

Parciau (gan gynnwys y felodrom): £5,451

Incwm arall a dderbyniwyd oedd £25,594 yn rhoi cyfanswm o'r incwm ar gyfer 2021/22 o £918,922.

**Gwariant y Cyngor** yn ystod 2021/22 oedd:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Parciau a'r Siop De | - | £174,730 | Goleuadau Stryd | - | £22,199 |
| Mynwent | - | £154,460 | Basgedi Crog | - | £9,212 |
| Neuadd Ddinesig San Pedr | - | £52,677 | Dinesig | - | £5,436 |
| Rhandiroedd | - | £1,214 | Gweinyddiaeth gyffredinol | - | £294,833 |
| Grantiau | - | £10,805 | Gwariant eraill | - | £5,423 |
| Digwyddiadau | - | £23,655 | **CYFANSWM** | **-** | **£754,644** |

Mae'r Cyngor yn cadw **cronfa wrth gefn** o £150,000 ar gyfer cyfyngau a thaliadau brys anrhagweledig.

Cyfyngwyd gwariant ar **brosiectau cyfalaf** yn ystod 2021/22, gan gynnwys:

- Atgyweirio llwybrau Mharc Hinds - £10,310
- Toiled i'r anabl yn Neuadd Ddinesig San Pedr - £1,580
- Amnewid Drysau Diogelwch yn Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn y Sied Storfa ym Mharc Caerfyrddin - £2,974
- Parc Sglefrio Caerfyrddin - £4,100
- Cynnal a chadw ac atgyweirio to Neuadd Ddinesig San Pedr - £3,654
- Caffael Cerbyd Newydd ar gyfer y Tîm Cynnal a Chadw - £10,750
- Diffibrilwyr - £2,415

## Cynnydd yn erbyn Amcanion Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin

| Amcanion Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin | Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sydd yn cyfrannu tuag at yr Amcan Llesiant | Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi'u defnyddio i lunio eich gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A) | Pa Nodau Llesiant cenedlaethol mae'r gwaith hwn yn ei gefnogi? (Crynodeb yn Atodiad B) |
|---|---|---|---|
| **Arferion Iach:** Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd | 1. Parciau Cyhoeddus ac Ardaloedd Chwarae | Mae'r Cyngor yn rheoli sawl parc cyhoeddus, ac y mae'r rhain yn gyfleusterau cymunedol pwysig y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i hyrwyddo iechyd a ffitrwydd a gwella llesiant ffisegol a synnwyr emosiynol pobl.<br><br>Mae yna offer chwarae ac offer arall ym mhob un o barciau cyhoeddus y Cyngor, ac mae'r prif barc yn Lôn Morfa yn darparu lle ac offer ar gyfer pob cenhedlaeth. Yn ystod 2021/22 cafodd gwelliannau sylweddol eu gwneud i'r llwybr cyhoeddus ym Mharc Hinds a gosodwyd sleid newydd ym Mharc Penllwyn. Mae'r hen gyfleusterau cyhoeddus a'r lloches bws yn Nhre Ioan wedi'u haddurno gan Hwb Tywi Hub, grŵp newydd o wirfoddolwyr sydd wedi'i sefydlu ac sy'n darparu cymorth a gweithgareddau a gallai fod angen cymorth emosiynol. Yn ystod y flwyddyn fe gysylltodd y grŵp hwn â Chyngor y Dref ac maent eisoes wedi cyflawni a nifer o brosiectau, gan gynnwys plannu a chynnal borderi blodau.<br><br>Cafodd y parc sglefrio ym Mharc Caerfyrddin ei ailaddurno yn dilyn ymgynghoriad gyda'r defnyddwyr.<br><br>Mae'r Siop De ym Mharc Caerfyrddin yn lleoliad poblogaidd ar gyfer nifer o wahanol grwpiau cymdeithasol, ac mae gweithgareddau a digwyddiadau wedi dychwelyd yn raddol i'r Parc yn ystod y flwyddyn. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal gŵyl fwyd sylweddol yn y Parc yn ystod yr haf, a bydd man eistedd a bwyta ychwanegol dan do yn y Siop De yn cael ei ddatblygu yn hwyrach eleni. | Cymru Ffyniannus<br>Cymru Iachach<br>Cymunedau Cydlynol<br>Cymru Fwy Cyfartal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2. Felodrom Caerfyrddin | Mae Felodrom Caerfyrddin yn cael ei reoli gan y Cyngor Tref ac mae ganddo strategaeth i ymgysylltu gyda seiclwyr a chlybiau ar draws de a gorllewin Cymru, ac i weithio i wella iechyd a lles defnyddwyr a chreu mwy o gyfleodd allanol ar gyfer seiclwyr o bob lefel, yn amrywio o ddechreuwyr i'r rhai ar y lefel elitaidd.<br><br>Bu cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Felodrom gan unigolion, amryw o grwpiau a sefydliadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. | Cymru Iachach<br>Cymunedau Cydlynol |
| | 3. Cadw Cymru'n Daclus | Ym mis Chwefror 2022, arweiniodd y Maer ymgyrch 'Glanhad Cymunedol' o dref Caerfyrddin a arweiniodd at Gyngor y Dref yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'i bartneriaid allweddol o Gyngor Sir Caerfyrddin a llawer iawn o wirfoddolwyr a sefydliadau eraill i gynnal ymgyrchoedd codi sbwriel a glanhau'r strydoedd. Mae hyn wedi cymryd lle yn ystod y misoedd diwethaf, ac mae nifer o'r gwirfoddolwyr yn parhau i gynnal sesiynau codi sbwriel ar draws yr ardal leol. Mae'r fenter wedi profi i fod yn llwyddiannus iawn, a bwriedir parhau â'r math hwn o ymgyrch bob blwyddyn. | Cymunedau Cydlynol<br>Cymru Gyfrifol Fyd-eang<br>Cymru Hydwyth |
| Amcanion Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin | **Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sydd yn cyfrannu tuag at yr Amcan Llesiant** | **Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi'u defnyddio i lunio eich gweithgaredd?**<br>**(Crynodeb yn Atodiad A)** | **Pa Nodau Llesiant cenedlaethol mae'r gwaith hwn yn ei gefnogi?**<br>**(Crynodeb yn Atodiad B)** |
| **Ymyrraeth Gynnar:** Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr amser iawn; yn ôl eu hangen. | 1. Unigrwydd | Ym mis Medi 2021 fe lansiodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Miriam Moules, ymgynghoriad â rhanddeiliaid â diddordeb i geisio gwella lefel y gefnogaeth i bobl unig yng Nghaerfyrddin. Fe fynychodd nifer o sefydliadau a phartïon â diddordeb gyfres o gyfarfodydd ar-lein dros gyfnod o 6 mis yn ystod y flwyddyn, a chyflwynwyd nifer o awgrymiadau ynghylch sut y gallai Cyngor y Dref ddymuno cefnogi pobl unig a hefyd cefnogi gwaith presennol y mae sefydliadau eisoes yn gweithio ar yn y maes hwn. Roedd rhain yn cynnwys yr angen i ddarparu llwyfannau gwybodaeth ddwyieithog ar gyfer pawb gan gynnwys gwybodaeth ddigidol ac wyneb yn wyneb; harneisio treftadaeth a diwylliant ym mhopeth yr | Cymru Ffyniannus<br>Cymru Fwy Cyfartal<br>Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ydym yn ei wneud; bod yn gynhwysol yn ein taith i fod yn gymdeithas decach; darganfod ymagweddau arloesol at berchnogaeth gymunedol o syniadau a gweithgareddau; creu agwedd fwy cynaliadwy at yr hyn yr ydym yn ei wneud; a gwneud mwy o ymdrech i gynnwys y rhai sydd ar y cyrion yn fwy yn ein cymdeithas.<br><br>Un o'r canlyniadau allweddol oedd cynhyrchu 'Cyfeirlyfr Gwasanaethau Caerfyrddin' y gallai pobl ei ddefnyddio i nod a chael mynediad haws at rwydweithiau a sefydliadau cymorth. Fe ymgymerwyd â'r gwaith hwn gan ddau fyfyriwr a oedd yn dilyn Rhaglen interniaeth gyda Chyngor y Dref.<br><br>Fe dyfodd rhwydwaith gwirfoddolwyr Cyngor y Dref yn sylweddol yn ystod y pandemig (menter 'Gofal Cymunedol') ac mae llawer o'r gwirfoddolwyr hynny yn parhau i gefnogi pobl yn ardal Caerfyrddin. Mae rhain yn cynnwys sefydliadau fel y Ford Gron, Hwb Tywi Hub, y Gymdeithas Ddinesig a nifer o unigolion. | |

| Amcanion Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin | Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sydd yn cyfrannu tuag at yr Amcan Llesiant | Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi'u defnyddio i lunio eich gweithgaredd? (Crynodeb yn Atodiad A) | Pa Nodau Llesiant cenedlaethol mae'r gwaith hwn yn ei gefnogi? (Crynodeb yn Atodiad B) |
|---|---|---|---|
| **Cysylltiadau Cryf:** Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd â chysylltiadau cryf sydd yn medru addasi i newid | 1. Digwyddiadau Dinesig Blynyddol | Gyda'r dileu graddol o'r cyfyngiadau cloi sy'n gysylltiedig â'r pandemig, mae digwyddiadau cymunedol a dinesig wedi ail-ymddangos yn ystod y 12 mis diwethaf. Am yr ail flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y cyngor gan gynnwys y seremoni Ddinesig i nodi penodiad y Maer newydd drwy fideo o bell, ac mae holl gyfarfodydd y Cyngor bellach yn cael eu cynnal ar sail 'aml-leoliad' fel y'i gelwir yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol a Deddf Etholiadau (Cymru) 2021. Fe ail-etholwyd y Cynghorydd Gareth John yn Faer Caerfyrddin (ac felly'n Gadeirydd y Cyngor Tref) am yr ail flwyddyn yn olynol - digwyddiad anarferol, ond un a adlewyrchodd ei arweinyddiaeth gref a chadarnhaol o'r Cyngor drwy gydol heriau'r pandemig yn ystod y flwyddyn flaenorol.<br><br>Mae arddangosfa tân gwyllt blynyddol Bord Gron Caerfyrddin ym Mharc Caerfyrddin yn denu llawer iawn o bobl, a gwelodd miloedd o bobl y digwyddiad cymunedol poblogaidd hwn yn dychwelyd yn 2021.<br><br>Dilynwyd hyn ym mis Tachwedd gan ddigwyddiadau blynyddol y Cofio Dinesig a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'r Lleng Prydeinig Brenhinol yn Eglwys San Pedr a Chofeb y Sir yn Heol y Prior.<br><br>Ym mis Tachwedd fe gynhaliwyd y noson cynnau goleuadau Nadolig traddodiadol a gorymdaith y ceirw ar ôl egwyl a achoswyd gan y pandemig ac unwaith eto fe fynychodd miloedd o bobl o bob rhan o dde-orllewin Cymru. Cynhaliwyd y dathliadau blynyddol sy'n gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi eto yn ystod Chwefror a Mawrth (gweler 4 isod). | Cymunedau Cydlynol<br>Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus<br>Cymru Hydwyth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2. Rhannu Gwybodaeth | Mae'r Cyngor Tref yn gweithredu fel ffynhonnell hanfodol a chyfathrebwr gwybodaeth ar draws cymunedau lleol, ac mae ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol amrywiol wedi'u datblygu i fod yn ganolbwynt cymunedol rhithwir. Defnyddir rhain i gyfleu negeseuon allweddol i'r gymuned i hybu iechyd a llesiant a hefyd i amlygu'r nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd yn cymryd lle yn y gymuned leol, a thrwy hynny yn creu cyfleodd i bobl i ddod at ei gilydd. Mae'r rôl 'cyfeirio' hon yn parhau i weithio'n effeithiol ac mae wedi tyfu'n sylweddol wrth i'r Cyngor gynyddu ei gysylltiad â mentrau fel y prosiect unigrwydd. | Cymru Fwy Cyfartal<br>Cymunedau Cydlynol<br>Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus |
| | 3. Ysgolion, Colegau a Grwpiau a Sefydliadau Cymunedol eraill | Mae'r Cyngor wedi cadw ei gysylltiad gydag ysgolion a cholegau lleol.<br><br>Yn dilyn ymlaen o lwyddiant blaenorol y cynllun, mae pedwar myfyriwr arall o Brifysgol y Drindod Dewi Sant wedi gweithio ar interniaethau gyda'r Cyngor Tref yn ystod y cyfnod adrodd ac maent wedi ymgymryd â gwahanol brosiectau ar ran y cyngor. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriadur chwaraeon newydd ar gyfer ein gwefan, canllaw i leoedd i ymweld â nhw yn y dref, a'r cyfeiriadur lles. | Cymunedau Cydlynol<br>Cymru Fwy Cyfartal<br>Cymru Ffyniannus<br>Cymru Hydwyth<br>Cymru Iachach<br>Cymru Gyfrifol Fyd-eang |
| | 4. Digwyddiadau Gŵyl Dewi | Ers 2016 mae cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol wedi cael eu cynnal yng Nghaerfyrddin yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth i ddathlu bywyd nawdd sant Cymru. Wedi'i gydlynu gan y Cyngor Tref, fe drefnwyd dros 30 o weithgareddau diwylliannol a gweithgareddau (gan gynnwys sawl digwyddiad ar-lein, yn dilyn llwyddiant dull y flwyddyn flaenorol) gan arwain at ddychwelyd yr orymdaith flynyddol o Eglwys San Pedr i'r Neuadd Sirol. Roedd digwyddiad eleni hefyd yn dangos yn deimladwy iawn gefnogaeth y dref tuag at ddioddefaint pobl Wcráin yn dilyn ei goresgyniad diweddar. | Cymru Ffyniannus<br>Cymunedau Cydlynol<br>Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus |

| **Amcanion Llesiant BGC Sir Gaerfyrddin** | **Camau a gymerwyd gan y Cyngor Tref/Cymuned sydd yn cyfrannu tuag at yr Amcan Llesiant** | **Sut mae'r 5 Ffordd o Weithio wedi'u defnyddio i lunio eich gweithgaredd?**<br>**(Crynodeb yn Atodiad A)** | **Pa Nodau Llesiant cenedlaethol mae'r gwaith hwn yn ei gefnogi? (Crynodeb yn Atodiad B)** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pobl a Lleoedd Ffyniannus:** Uchafu cyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig ein sir | 1. Cynllun Adfer Canol y Dref o'r Pandemig Covid – Cefnogi'r economi leol | Mae'r Cyngor Tref wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw yn adferiad economi'r dref yn dilyn y pandemig.<br><br>O dan arweiniad y Maer, y Cyng. Gareth John, mae'r Grŵp Adfer Canol y Dref - yn cynnwys arweinwyr busnes (Siambr Fasnach, Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin, Marchnad Caerfyrddin), cynrychiolwyr a masnachwyr o fusnesau unigol allweddol (e.e. Rhodfa Myrddin, Rhodfa Santes Catrin), a swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin - yn parhau i gwrdd bob pythefnos i sicrhau bod y dref yn gwneud popeth posib i 'ddychwelwyd i fusnes fel arfer'. | Cymru Ffyniannus<br>Cymru Hydwyth<br>Cymru Iachach<br>Cymru Fwy Cyfartal<br>Cymunedau Cydlynol<br>Diwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus |
| | 2. Fforwm Adfywio Caerfyrddin | Grŵp a reolir gan y Cyngor Sir o randdeiliaid allweddol sy'n gyfrifol am ddatblygiad economaidd y dref yw Fforwm Adfywio Caerfyrddin. Mae'n parhau i gael ei gadeirio gan Faer Caerfyrddin, ac mae nifer o gynghorwyr a swyddogion eraill yn aelodau o'r Fforwm a'i amrywiol is-grwpiau, pob un ohonynt yn cydweithio i wella ffyniant Caerfyrddin. | Cymru Ffyniannus |
| | 3. LocalMotion | Mae LocalMotion yn gysyniad hollol newydd sy'n cynnwys grŵp o fuddsoddwyr preifat sydd wedi nodi Caerfyrddin fel un o 6 thref a dinas ledled y DU (dyma'r unig leoliad yng Nghymru) a fydd yn elwa o £350,000 cychwynnol (buddsoddiad deunaw mis yn y dref rhwng Chwefror 2022 a Medi 2023). Bydd yn cael ei ddilyn gan fuddsoddiad wyth mlynedd tan 2030. Mae nifer fawr o randdeiliaid gan gynnwys y Cyngor Tref yn aelodau o'r grŵp ac mae symiau sylweddol o arian wedi'u clustnodi i'w buddsoddi ar wahanol brosiectau. Ar hyn o bryd mae 'Llais Caerfyrddin' yn cael ei ddatblygu a bydd yn brosiect ymgysylltu tref strategol sy'n cysylltu â thrigolion o ystadau tai, grwpiau rhwng cenedlaethau, a sefydliadau. Ymgynghori yw amcan allweddol y prosiect hwn, gan sicrhau bod yr ymgysylltu hwn yn grymuso gwaith LocalMotion yn y gymuned yn y dyfodol. Bydd Llais Caerfyrddin yn ymweld â chymunedau ledled y dref ac yn ymgysylltu i ddatblygu syniad o'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer Caerfyrddin. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae digwyddiad cymunedol mawr hefyd yn cael ei gynllunio, i ddod â naws gelfyddydol fywiog i Gaerfyrddin. Mae sgyrsiau, arddangosfeydd, gweithdai, a chysylltiadau addysgol â cholegau ac ysgolion i gyd yn cael eu cynllunio ar gyfer y digwyddiad mawr hwn. Mae gweithio gyda'n gilydd yn gyffrous a heriol, felly rhaid i ni gyd fod yn ystyriol o barchu'r broses. Ar ôl y treialon cychwynnol hyn yn y deunaw mis cyntaf, gobeithio y gallwn bwyso a mesur yr hyn sy'n bosibl a datblygu prosiectau LocalMotion yn y dref yn y dyfodol. | |
| | 4. Tir Cyhoeddus – Ymddangosiad canol y dref | Mae Cyngor y Dref yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth sicrhau bod y dref yn edrych ar ei gorau ar gyfer ei thrigolion ac ymwelwyr. Mae'n gyfrifol am yr holl barciau lleol a'r rhan fwyaf o'r arddangosfeydd blodau yng nghanol y dref. Mae ganddo hefyd rôl mewn amlygu a chydlynu pryderon am faterion y tu allan i'w gwmpas cyfrifoldeb trwy'r Grŵp Adfer Canol y Dref a'i aelodaeth o Is-grŵp Tir Cyhoeddus y Fforwm Adfywio Tref.<br><br>Mae'r Cyngor Tref yn darparu'r cynllun basgedi crog ac arddangosfeydd blodau eraill sy'n bywiogi golwg y dref ac yn helpu i ddenu ymwelwyr a siopwyr i'r dref o dde-orllewin Cymru a thu hwnt. Er mwyn helpu busnesau a oedd wedi cael eu heffeithio gan y pandemig darparodd y Cyngor Tref dros 150 o fasgedi yn rhad ac am ddim yn ystod y flwyddyn hon eto.<br><br>Ym mis Chwefror 2022, arweiniodd y Maer ymgyrch 'Glanhad Cymunedol' a arweiniodd at y Cyngor Tref yn gweithio'n effeithiol iawn gyda'i bartneriaid allweddol o Gyngor Sir Caerfyrddin a llawer iawn o wirfoddolwyr a sefydliadau eraill i gynnal ymgyrchoedd codi sbwriel a glanhau strydoedd. Mae hyn wedi cymryd lle yn y misoedd diweddar ac mae nifer o wirfoddolwyr yn parhau i gasglu sbwriel ar draws yr ardal leol. Bu'r fenter yn un llwyddiannus iawn, a bwriedir parhau â'r math hwn o ymgyrch â ffocws bob blwyddyn. | Cymru Ffyniannus<br>Cymunedau Cydlynol |

## Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth i Lywodraeth Cymru

***Deddf Amgylcheddol (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6 Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Hydwythdedd Ecosystemau***

- Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau lleol, ac yn rheoli nifer o fannau gwyrdd. Mae rhain yn cynnwys nifer o barciau cyhoeddus, ardaloedd chwarae a Mynwent Caerfyrddin. Crëwyd gardd iâr fach yr haf ym Mharc Caerfyrddin yn ystod 2020 a hadwyd blodau gwyllt ar fanciau'r felodrom.

- Cyhoeddodd y Cyngor 'Cynllun Gweithredu Datblygu Bioamrywiaeth ac Amgylchedd' ym mis Medi 2018 ac mae ganddo hefyd Is-bwyllgor y Cyngor - Pwyllgor Sian Johnston - sydd yn delio'n gyda materion sy'n ymwneud a'r amgylchedd a chynaladwyedd. Mae'r pwyllgor hwn yn gwneud argymhellion i'r Cyngor Tref ar y materion hyn. **Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu gan CTC yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022.**

## Atodiad A:  5 Ffordd o Weithio

| |
|---|
| **Tymor Hir**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda’r angen i ddiogelu'r gallu hefyd o gyrraedd anghenion tymor hir. |
| **Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau ddigwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gall amcanion llesiant y cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o’r corff ei hun) a all helpu’r corff gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Cyfranogiad**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb yn cyflawni’r amcanion llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r corff yn ei wasanaethu. |

## Atodiad B: Nodau Llesiant Cenedlaethol

| Nod Cenedlaethol |
|---|
| **Cymru Ffyniannus:**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sydd yn cydnabod terfynau'r amgylchedd Byd-eang a thrwy hynny yn defnyddio adnoddau yn effeithiol a chyfatebol, ac sydd yn datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sydd yn cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu pobl i fanteisio o'r cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith gweddus. |
| **Cymru Hydwyth:**<br>Cenedl sydd yn cynnal a gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau gweithredu iach sydd yn cefnogi hydwythdedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. |
| **Cymru Iachach:**<br>Cymdeithas lle mae lles ffisegol a meddyliol pobl yn cynyddu i'r eithaf a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd iechyd yn y dyfodol iach yn cael eu deall. |
| **Cymru Fwy Cyfartal:**<br>Cymdeithas sydd yn galluogi pobl i gyflenwi eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau. |
| **Cymru o Gymunedau Cydlynol:**<br>Cymunedau deniadol, ymarferol, diogel a gyda chysylltiadau da. |
| **Cymru o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus:**<br>Lle mae gennym lawer o gyfleodd i wneud gwahanol bethau a lle mae llawer o bobl yn gallu siarad Cymraeg. |
| **Cymru Gyfrifol Fyd-eang:**<br>Lle rydym yn gofalu am yr Amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill o ledled y Byd. |